Yn Ddiogel yn eich Cartref

Pecyn Cymorth er mwyn helpu'r henoed i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

Cynnwys:

Pennod 1	Datganiad o ddiben – nodau ac amcanion y Fenter
Pennod 2	Materion i'w hystyried cyn sefydlu Menter
Pennod 3	Gweithredu Cynllun Yn Ddiogel yn eich Cartref
Atodiad 1	Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer atgyfeirio i'r cynllun
Atodiad 2	Ffurflen Atgyfeirio
Atodiad 3	Ffurflen Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid

Pennod 1

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru gan eu bod yn cael eu hystyried fel y materion sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r anhwylderau y gellid eu hosgoi. Un o'r themâu allweddol yw Iechyd a Lles Meddyliol. Lluniwyd y fenter hon er mwyn diogelu iechyd meddwl pobl oedrannus sy'n byw yn y gymuned a hybu eu lles.

2. Cydnabyddir yn gyffredinol bod ofn troseddau yn gallu cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl a'i fod yn gallu amharu ar les yr unigolyn. Dengys ymchwil ar ran y Swyddfa Gartref bod diffyg tawelwch meddwl, sefyllfaoedd lle mae unigolion yn credu neu'n gwybod eu bod yn perthyn i grŵp sydd 'mewn perygl', sefyllfaoedd lle mae pobl yn meddwl na allant newid hyn ac yn ofni'r effaith y gallai dioddef trosedd ei gael ar eu ffordd o fyw a'u hannibyniaeth arwain at ynysu, unigrwydd, straen meddyliol ac iselder[1]. Un o amcanion strategaeth gyfredol y Swyddfa Gartrefol yw, "Mae pobl yn ddiogelach ac yn teimlo'n ddiogelach yn eu cartrefi ac yn eu bywydau bob dydd". Mae'r nod hwn yn seiliedig ar darged ymestynnol o sicrhau gostyngiad o 15% mewn troseddau, a mwy o ostyngiad mewn ardaloedd lle mae mwy o droseddau, erbyn 2007/08. Mae torri i mewn i dai a thrais yn y cartref wedi eu cynnwys yn y targed hwn. Mae nifer yr achosion o dorri i mewn i dai wedi gostwng ers 1998/99, ac eto, mae oddeutu 19% o'r holl droseddau eiddo sy'n cael eu cofnodi yn achosion o dorri i mewn i dai, ac mae'n un o'r troseddau y mae'r cyhoedd yn ei ofni fwyaf, yn enwedig hen bobl sy'n dal i fyw bywydau annibynnol yn y gymuned. Er bod nifer yr achosion o dorri i mewn i dai wedi gostwng, mae'r ofn yno o hyd. Mae byrgleriaeth yn dal i fod yn broblem mewn ardaloedd lle mae lefelau troseddu'n uchel; yng nghanol y dinasoedd; ymhlith cartrefi un rhiant ac ymhlith yr henoed. Yn ychwanegol at hyn, mae 40% o'r achosion o fyrgleriaeth yn ail fyrgleriaethau, y rhan fwyaf cyn pen 7 diwrnod[2].

3. Mae'n anodd amcangyfrif cost troseddau, fel byrgleriaethau a byrgleriaethau tynnu sylw mewn eiddo domestig. Mae ystod aruthrol o gostau'n codi mewn ymateb i drosedd. Mae costau i'r heddlu, sy'n cofnodi, yn ymchwilio ac yn casglu tystiolaeth am y troseddau hynny a ddaw i'w sylw, i Wasanaeth Erlyn y Goron, Llysoedd Ynadon a Llys y Goron, Cymorth Cyfreithiol a chostau diffynyddion heb gymorth cyfreithiol, a chostau i'r gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae'r costau hyn yn rhai y gellir eu mesur, er eu bod yn gostau sy'n digwydd dros wahanol gyfnodau, ac er bod nifer o wahanol asiantaethau'n gyfrifol am eu talu.

4. Efallai mai'r gost fwyaf aneglur o ganlyniad i droseddau yw'r amhariad ar ansawdd bywyd dioddefwyr posib. Ni ellir mesur ansawdd bywyd, ac ni ellir amcangyfrif cost amhariad ar ansawdd bywyd. Er bod pob cam posib i leihau risg a chostau dioddef trosedd wedi ei ystyried, mae llawer o ddarpar ddioddefwyr yn dal i fod yn ofnus ac mae troseddau'n dal i gael effaith andwyol ar ansawdd eu bywydau. Mae'r effaith hon ar ansawdd eu bywydau'n cynnwys teimlad nad yw pobl mor ddiogel yn eu cymunedau,

amhariad ar y rhyddid i gymdeithasu neu deithio, a cholli pleser mewn gwaith neu weithgareddau hamdden. Gall yr effaith emosiynol a chorfforol a'r amhariad ar ansawdd bywyd dioddefwyr troseddau fod yn sylweddol iawn, yn enwedig yn achos troseddau personol. Er enghraifft, mae'n bosib bod rhywun sydd wedi dioddef lladrad wedi cael anafiadau corfforol (cleisiau, briwiau), efallai ei fod wedi dychryn, yn teimlo'n ansicr, yn methu ymddiried mewn pobl ac yn teimlo'n fregus am wythnosau os nad misoedd wedyn, ac yn methu â chysgu'n iawn o bosib. Gall pobl sydd wedi dioddef troseddau personol neu droseddau yn ymwneud ag eiddo fod yn teimlo bod rhywun wedi ymyrryd ar eu bywydau[3]. Mae'r effaith gorfforol neu emosiynol hon, yn enwedig yn achos troseddau treisgar a rhywiol, yn llawer mwy yn gyffredinol nag unrhyw gostau ariannol.

5. Gall troseddau hefyd beri i bobl fod yn llai effeithiol yn y gwaith, i fethu â mwynhau gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau cymdeithasol, i fynd yn fwy ofnus neu i ddatblygu problemau rhyngbersonol. Ambell waith mae gwerth sentimental eiddo sy'n cael ei ddwyn neu ei ddifetha yn amhrisiadwy. Efallai hefyd y bydd ar ddioddefwyr angen gofal neu gyngor, ac mae cost hynny'n cael ei gynnwys dan wasanaethau i ddioddefwyr. Mewn troseddau lle mae'r dioddefwr wedi dioddef ymosodiad neu drais, mae'r GIG a darparwyr gwasanaethau iechyd eraill yn wynebu costau iechyd, fel cost cyfle adnoddau a ddefnyddir i drin dioddefwyr troseddau. Gall costau emosiynol y trosedd a ddioddefwyd amlygu eu hunain ar ffurf yr angen am wasanaethau cefnogi fel cyngor (e.e. drwy Gymorth i Ddioddefwyr). Ym mhob achos, mae'r adnoddau a ddefnyddir mewn gwasanaethau o'r fath yn cynnwys cost cyfle sy'n gysylltiedig ag adeiladau, staffio a chostau rhedeg eraill.

6. Mewn canran fechan o achosion, mae pobl oedrannus sy'n byw yn y gymuned yn ildio'u hannibyniaeth gan fod ganddynt ofn parhau i fyw yn y gymuned ac yn symud i dai gwarchod neu gartrefi gofal preswyl. Gall symudiad o'r fath fod yn fanteisiol mewn rhai achosion, gan ddod â'r unigolyn i amgylchedd cymdeithasol a chyfoethogi ei fywyd, ond mewn amgylchiadau eraill gall arwain at deimlad o golli rheolaeth a methu â gwneud dim i ddylanwadu ar yr hyn a fydd yn digwydd iddynt. Gall teimladau fel hyn o golli rheolaeth arwain at ddirywiad meddyliol pellach a theimlo'n isel.

7. Yn unol â dyhead Her Iechyd Cymru i wella iechyd a lles meddyliol mae'r prosiect hwn yn ceisio gwneud cartrefi pobl oedrannus sy'n byw yn y gymuned yn ddiogelach, er mwyn eu helpu i deimlo eu bod hwy eu hunain a'u heiddo'n ddiogel.

---

[1] Dubourg R a Thorns J Uned Dadansoddi Economeg ac Adnoddau'r Swyddfa Gartref

[2] Ffigurau'r Swyddfa Gartref, 2003-4 a ddyfynnwyd gan Safe Partnership 2005

[3] Er enghraifft, mae dioddefwyr byrgleriaeth yn aml yn teimlo bod rhywun wedi ymyrryd ar eu preifatrwydd. Dywedodd un rhan o dair o ddioddefwyr byrgleriaethau yn Arolwg Troseddau Prydain 1988 mai'r peth gwaethaf am y digwyddiad oedd yr 'ymyriad ar breifatrwydd' (yn ôl Mirrlees-Black et al., 1996). Cyfeiriodd tua chwarter y dioddefwyr at deimlad o ofn ac ansicrwydd ar ôl byrgleriaeth.

Pennod 2

Yn Ddiogel yn eich Cartref – Helpu'r henoed i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae angen rhoi sylw i ystyriaethau penodol cyn cychwyn ar y prosiect hwn, gan gynnwys;

a. Beth yw'r grŵp targed?
b. A fydd yr ymyriad yn sicrhau'r canlyniad bwriedig?
c. Sut y gellir cyrraedd y grŵp targed?
d. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
e. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?
f. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Mae'r fenter hon yn targedu pobl hŷn sy'n ofni troseddau yn eu cartrefi eu hunain, felly mae angen diffinio grŵp oedran yr unigolion sydd i'w hystyried fel 'yr henoed'. Mae ymgyrch y Cynulliad Cenedlaethol, 'Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn' yn nodi person hŷn fel rhywun sydd dros 65 oed. Awgrymir felly y dylid mabwysiadu'r oedran hwn i ddibenion y fenter hon.

Mae'r fenter hon felly'n rhoi sylw i bobl dros 65 oed, sy'n berchen-feddianwyr neu'n denantiaid preifat, yn byw ar eu pennau eu hunain neu gyda phobl eraill o fewn y grŵp targed.

3. Sicrhau'r canlyniad bwriedig

Y canlyniad bwriedig ar gyfer y fenter hon yw bod pobl hŷn o fewn y grŵp targed yn teimlo'n ddiogelach yn eu cartrefi eu hunain. Drwy sicrhau'r canlyniad bwriedig bydd y grŵp targed, os bydd eu hiechyd corfforol a ffactorau eraill yn caniatáu, yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain, gan fyw bywydau annibynnol yn y gymuned am fwy o amser nag a fyddai wedi bod yn bosib pe na bai'r fenter wedi ei sefydlu. Felly, bydd y canlyniad bwriedig yn gwneud i'r henoed deimlo'n ddiogelach, a bydd hefyd yn gwneud i'r grŵp targed weithredu ar sail hynny a pharhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Mae dwy ffordd o gyrraedd y grŵp targed – drwy gael yr henoed i gyfeirio eu hunain o ganlyniad i gynllun marchnata a thrwy gael trydydd parti i'w cyfeirio.

Gellir dechrau ar y gwaith marchnata drwy ddosbarthu taflenni, a gellir gwahodd yr unigolion hynny sy'n mynegi diddordeb yn y cynllun i fynychu diwrnod lle rhoddir cyflwyniad am y cynllun gan amlinellu beth mae'r cynllun yn ceisio ei wneud, a beth y gallai ei wneud ar ran yr unigolion sy'n cymryd rhan ynddo. Gellir rhoi rhagor o wybodaeth am y cynllun yn y papurau lleol yn ardal yr ymyriad a all fod yn cael eu danfon i gartrefi aelodau o'r grŵp targed.

Gall unigolion gael eu cyfeirio at y cynllun gan grwpiau cytunedig sy'n dod i gysylltiad â'r grŵp targed o ddydd i ddydd. Gallai'r rhain gynnwys Gofalwyr Cartref Adran y

Gwasanaethau Cymdeithasol a Nyrsys Cymunedol, Swyddogion Tai yr awdurdod lleol, staff mudiadau gwirfoddol a meddygon teulu a nyrsys practis. Nid yw'r rhestr hon yn gyfyngedig nac yn hollgynhwysfawr. Rhaid dosbarthu cyfarwyddyd yn ymwneud ag atgyfeirio er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai hynny a allai elwa o'r cynllun sy'n cael eu cyfeirio ato, ac er mwyn sicrhau nad yw'r cynllun yn derbyn mwy o atgyfeiriadau nag y gall ddygymod â hwy.

Gellid ystyried targedu'r cynllun tuag at ardal ddaearyddol benodol lle gwyddys bod cyfraddau troseddau yn uwch, neu lle mae arolygon lleol (arolygon Troseddau ac Anhrefn, arolygon Ardaloedd Adnewyddu Tai) wedi dangos bod ofn troseddau yn uchel.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Gall partneriaid y cynllun gynnwys yr awdurdod lleol, drwy ei adran iechyd yr amgylchedd, ei adran dai a Gofalwyr Cartref ei adran gwasanaethau cymdeithasol, yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol, yr Heddlu lleol a'r Frigâd Dân, Ymddiriedolaeth leol y GIG a'r Bwrdd Iechyd Lleol a chyrff eraill o'r sector gwirfoddol sydd â diddordeb.

6. Sut fydd y fenter yn cael ei gwerthuso?

Mae'n anodd gwerthuso'r prosiect hwn gan fod ei lwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar deimlad o fod yn ddiogelach ymhlith y rhai hynny sydd wedi elwa o'r ymyriad. Mae'n amhosib mesur canfyddiadau, ac, fel y disgrifiwyd ym Mhennod 1, nid yw'r ffaith bod troseddau'n gostwng a bod llai o risg i'r unigolyn yn golygu o reidrwydd bod unigolion yn teimlo'n ddiogelach ac yn meddwl bod llai o risg iddynt.

Gellid defnyddio'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun er mwyn mesur ei lwyddiant – gellid defnyddio nifer y cartrefi o fewn y grŵp targed sy'n manteisio ar y fenter i ddangos pa mor atyniadol ydyw i'r grŵp hwnnw a gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer mesur maint y llwyddiant.

Fel y nodwyd, fodd bynnag, ni ellir gwarantu y bydd gwneud cartref yn ddiogelach mewn gwirionedd yn gwneud i'r sawl sy'n byw ynddo deimlo'n ddiogelach. Awgrymir felly nad yw dull syml o fesur, fel yr un uchod, yn ddigon cynhwysfawr. Mae angen ceisio mesur canfyddiad yr unigolyn sy'n cymryd rhan yn y fenter er mwyn canfod a yw'n teimlo'n fwy diogel. Gellir gwneud hyn drwy ddosbarthu holiaduron i'w llenwi gan aelodau o'r grŵp targed sy'n cymryd rhan yn y prosiect, o fewn cyfnod penodol ar ôl dechrau'r ymyriad er mwyn gweld a yw unigolion yn teimlo rywfaint yn ddiogelach yn eu cartrefi.

Awgrymir hefyd y gellir gwneud adolygiadau annibynnol o'r cynllun, drwy gael unigolyn neu gorff annibynnol ac allanol i ddadansoddi achosion unigol yn fanwl, ac asesu a yw'r cynllun yn cyflawni ei amcanion ac a yw'n cynnig gwerth am arian.

7. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am arian?

Yn y prosiect peilot cafodd y cynllun hwn ei weithredu ochr yn ochr â chynllun ardal adnewyddu. Gwariodd y bartneriaeth a oedd yn gyfrifol am y prosiect peilot £32,000, i dalu am sefydlu'r cynllun, ei farchnata a chostau deunydd a llafur ar gyfer gweithredu'r ymyriad mewn 300 o gartrefi.

Nid oedd y prosiect wedi cael ei ddadansoddi ar adeg ysgrifennu'r pecyn cymorth hwn. Fodd bynnag, o ystyried nad oes unrhyw gost o gwbl i'r rhai hynny sy'n elwa o'r cynllun hwn, ac o ystyried y gost, o safbwynt ariannol ac o safbwynt lles meddyliol aelodau o'r grŵp targed sy'n gorfod ildio eu hannibyniaeth oherwydd ofn troseddau a theimlad nad ydynt yn ddiogel, awgrymir y bydd yr ymyriad hwn yn cynnig gwerth am arian.

Pennod 3

Yn Ddiogel yn eich Cartref – Hybu teimladau o Ddiogelwch ymhlith yr henoed yn eu cartrefi eu hunain

Yr Ymgyrch

Archwilir cartrefi'r henoed er mwyn asesu mesurau diogelwch personol a diogelwch eiddo. Gellir ymestyn y fenter i gynnwys archwiliad tân ac archwiliad effeithlonrwydd ynni, yn ôl y galw lleol.

Marchnata'r fenter

1. Mae angen llawer o bobl i gymryd rhan yn yr ymgyrch hon er mwyn sicrhau ei bod yn gost effeithiol. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod cynifer ag sy'n bosib o'r henoed cymwys a allai elwa o'r cynllun yn ymwybodol ohono, ac yn mynegi diddordeb mewn bod yn rhan ohono. I'r perwyl hwn, awgrymir y dylid ceisio cael pobl i gymryd rhan yn y cynllun mewn dwy ffordd, yn gyntaf drwy gael pobl i enwebu eu hunain, ac yn ail drwy gael eu cyfeirio at y cynllun.

2. Anogir pobl i enwebu eu hunain drwy raglen farchnata. Anfonir taflenni at gynulleidfa eang gan gynnwys llyfrgelloedd lleol, grwpiau gwirfoddol lleol (e.e. Age Concern, Help the Aged, Sefydliad y Merched ac ati) a chlybiau cinio. Gwneir cyflwyniadau i grwpiau lleol amrywiol, a chynhelir arddangosfeydd/cyflwyniadau mewn digwyddiadau lleol. Mae'r daflen yn gwahodd y rhai hynny sy'n gymwys i fynychu cyflwyniad mewn lleoliad canolog cyfleus, lle mae pwrpas a manteision y cynllun yn cael eu hamlinellu mewn cyflwyniad. Maent yn cael eu hanfon hefyd i ardal ddaearyddol benodol lle gwyddys bod cyfraddau troseddau'n uwch, neu lle mae arolygon lleol (arolygon Troseddau ac Anhrefn, arolygon Ardaloedd Adnewyddu Tai) wedi nodi bod ofn troseddau'n uchel. Gellid defnyddio'r digwyddiad hefyd i drosglwyddo negeseuon eraill sy'n ymwneud ag iechyd a lles i'r grŵp targed, e.e. y ffaith fod brechiadau rhag y ffliw ar gael yn y gaeaf, negeseuon ynglŷn â gwresogi yn y gaeaf, negeseuon ynglŷn â budd-daliadau ac ati, ond rhaid gofalu nad oes gormod o wybodaeth yn cael ei chynhyrchu a bod y neges ganolog ynglŷn â Diogelwch yn y Cartref yn cael ei cholli.

3. Rhaid rheoli'r cynllun atgyfeirio'n ofalus er mwyn sicrhau na cheir gormod o atgyfeiriadau. Yn y cynllun peilot rhoddwyd yr hawl i wneud atgyfeiriadau i Ofalwyr Cartref y Gwasanaethau Cymunedol a Nyrsys Cymunedol, Swyddogion Tai, meddygon teulu a staff mudiadau gwirfoddol dethol, sef pobl sydd â chysylltiad agos o ddydd i ddydd â'r henoed yn eu cartrefi eu hunain. Cynhyrchwyd nodiadau cyfarwyddyd er mwyn helpu'r rhai sy'n gwneud atgyfeiriadau i benderfynu a ddylid cyfeirio rhywun at y cynllun, a defnyddiwyd ffurflen safonol ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i'w gweld fel Atodiad 1, ac mae'r ffurflen atgyfeirio i'w gweld fel Atodiad 2.

Ymweliad asesu a chamau gweithredu yn dilyn atgyfeiriad

4. Ar ôl cyfeirio'r person oedrannus at y cynllun dylid ymweld ag ef yn ei gartref, ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus iddo ef neu hi. Dylai'r swyddog sy'n ymweld â'r cartref archwilio'r cartref gan edrych am eitemau a allai amharu ar ddiogelwch y sawl sy'n byw yno. Gallai'r archwiliad hefyd ymwneud â diogelwch rhag tân, cyfarpar canfod carbon monocsid, a darpariaeth wresogi. Bydd ystod y materion yr ymdrinnir â hwy yn dibynnu ar yr eiddo lleol ac ar yr adnoddau sydd ar gael i wneud y gwaith dilynol. Lle bo angen gall y swyddog sy'n archwilio'r cartref gynnig cyngor uniongyrchol. Ar ddiwedd yr archwiliad dylid paratoi adroddiad yn nodi'r gwaith sydd ei angen. Mân bethau fydd y rhain fel arfer, e.e. gosod bachau ar y ffenestri neu drwsio drysau allanol nad ydynt yn cau'n iawn, ond bydd eraill yn ymwneud â darpariaeth newydd, e.e. cadwyni diogelwch, gosod golau y tu allan neu ffenestri sbecian yn y drysau. Gallai'r cyngor ymwneud â diogelwch eiddo sy'n cael ei gadw y tu allan, sicrhau nad yw eitemau mawr wedi eu gadael mewn man lle gallai rhywun eu defnyddio er mwyn cael mynediad, a chynllunio gerddi mewn ffordd a fydd yn helpu i gadw lladron draw.

5. Yn dilyn yr ymweliad archwilio dylai crefftwr ymweld â'r eiddo i wneud y gwaith a nodwyd. Gall aelodau o gyrff eraill sy'n ymwneud â darparu cyngor neu waith diogelu cartrefi ymweld â'r cartrefi hefyd e.e. y Gwasanaeth Tân, Swyddogion Cymunedol yr Heddlu neu staff yr uned effeithlonrwydd ynni. Os nad y person sy'n byw yn y tŷ yw perchennog y tŷ byddai'n ddoeth cysylltu â'r perchennog i'w hysbysu ynglŷn â'r gwaith arfaethedig ac i sicrhau nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad. Dylai'r ymweliad hwn fod ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r sawl sy'n byw yn y tŷ. Lle bo modd, dylai pob darn o waith a nodwyd gael ei wneud yr un diwrnod, er mwyn amharu cyn lleied ag sy'n bosib ar y sawl sy'n byw yn y tŷ.

Gwerthuso'r Cynllun

6. Fel y nodwyd ym Mhennod 2.6 gellir gwerthuso llwyddiant y fenter i ryw raddau drwy ystyried nifer y rhai sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun, ac o bosib drwy ddadansoddi ffigurau o'r fath – e.e. faint o gadwyni diogelwch sydd wedi eu gosod, faint o oleuadau y tu allan ac ati.

7. Mae'r rhan fwyaf o'r camau sy'n rhan o'r cynllun hwn wedi eu llunio er mwyn lleihau ofn troseddau a gwneud i'r henoed deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Ni ellir gwneud gwerthusiad meintiol o'r teimlad o fod â llai o ofn ag o deimlo'n ddiogelach, ac eto maent yn fesuryddion llwyddiant pwysig. Awgrymir felly y dylid gwneud arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid, gyda grŵp dethol o bobl oedrannus sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun. Fel rhan o'r arolwg hwn gellir gofyn cwestiynau yn ymwneud â'r canfyddiad o ddiogelwch a lleihad neu gynnydd mewn ofn troseddau. Mae'r ffurflen a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg yn y prosiect peilot i'w gweld fel Atodiad 3. Dylid dadansoddi'r ffurflenni er mwyn nodi manteision ac anfanteision y cynllun, a chael gwybodaeth ar gyfer datblygu cynlluniau eraill yn y dyfodol.

Atodiad 1

Gofal a Thrwsio Ceredigion

Cynllun y Cardi Sâff - Canllawiau Atgyfeirio

I'w defnyddio ar y cyd â Ffurflen atgyfeirio y Cardi Sâff.

1. Yn gyntaf, llenwch y rhan "Oddi wrth", er mwyn nodi'r Sefydliad a'r Adran sy'n gwneud yr atgyfeiriad e.e. Consortiwm y Sector Gofal, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Gofal Cartref y De. Mae arnom angen y wybodaeth hon yn llawn ar gyfer ein cofnodion.

2. Llenwch yr holl fanylion ynglŷn â'r cleient, gan gynnwys 'Enw a rhif ffôn ar gyfer cysylltu', e.e. perthynas, cymydog.

3. Nodwch yn fyr pam bod yr Atgyfeiriad yn cael ei wneud, yn enwedig os oes problem benodol nad yw'n swyddogion ni'n gwybod amdani.
   e.e. Y cleient yn bryderus iawn ynglŷn â diogelwch. Y cleient yn simsan iawn wrth ddringo'r grisiau.

4. Nodwch os byddech yn ein cynghori i beidio ag ymweld â chleient ar ein pennau ein hunain, h.y. os gallai'r cleient fod yn beryglus.

5. Oni cheir caniatâd y cleient, neu berson cyfrifol y gellir cysylltu ag ef, ni fyddwn yn ceisio cysylltu, a dychwelir yr atgyfeiriad.

6. Dylai'r sawl sy'n atgyfeirio'r person arwyddo'r ffurflen, a phrintio'i enw'n glir, fel ein bod yn gwybod pwy sy'n gwneud yr atgyfeiriad.

7. MEINI PRAWF AR GYFER CYMHWYSTER

Y grŵp defnyddwyr ar gyfer y gwasanaeth fydd:

Pobl hŷn dros 65 oed, pobl anabl sy'n hawdd eu niweidio.

Ym mhob deiliadaeth o fewn ffiniau Ardal Adnewyddu Ceredigion.

8. Anfonwch gopi o'r ffurflen ar ffurf ffacs i'r rhif a roddwyd a chadwch gopi ar gyfer cofnodion eich cleient.

9. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch â phetruso cysylltu â ni ar y ffôn i ofyn am gyngor cyn anfon ffacs.

Ar 01970 639920

Atodiad 2

Gofal a Thrwsio Ceredigion Care & Repair

Cardi Sâff Scheme Referral

O/From: _____

I/To: **Cynllun Cardi Sâff Scheme**
Gofal a Thrwsio Ceredigion Care & Repair

Enw Client/Client's Name
……..

Cyfeiriad/Address
……..

……..

Dyddiad Geni/
D.O.B ……

Côd Post/
Post Code……...

Rhif Ffôn/
Tel No. ……

Enw Cyswllt/Contact Name …….
Rhif Cyswllt/Contact No. ……

Manylion/Details:

_____

_____

_____

_____

_____

Cytundeb Cleient
Client Authorisation: ……

Referrer Signature:……

Referrer PRINT…… **Dyddiad**/Date:……/……/…

Department ……..

FACS I/FAX TO 01970 639925

GOFAL A THRWSIO CEREDIGION CARE & REPAIR

Atodiad 3

GOFAL A THRWSIO CEREDIGION CARE & REPAIR
Holiadur Gwaith Cardi Sâff

1. A ydych yn teimlo'n fwy diogel a sicr yn eich cartref yn dilyn gwasanaeth Cardi Sâff?

   Ydw ☐ Nac ydw ☐

   Sylwadau:
   _____
   _____

2. Ydy'r gwasanaeth wedi lleihau'r tebygolrwydd o gwympo yn eich cartref?

   Ydy ☐ Nac ydy ☐

   Sylwadau:
   _____
   _____

3. Oeddech chi'n hapus gydag ymddygiad a safon y gwaith a wnaethpwyd gan:

   i) Crefftwr Diogelwch Cartref?

   Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐

   Sylwadau:
   _____
   _____
   _____
   _____

4. Os ydych yn anhapus gydag unrhyw rhan o'r gwasanaeth,

   i) a hoffech i ni gysylltu a chi i drafod y mater

   Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

   _____
   _____

   neu

   ii) a hoffech i ni danfon copi o'n trefn cwyno i chi

   Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

   _____
   _____

   ☐